# Newyddion Bethlehem



www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Gwanwyn 2018



***Gan i'r tywydd darfu ar y bwriad i gael y gwasanaeth Gŵyl Ddewi gan blant yr Ysgol Sul ar fore Sul Mawrth 4$^{ydd}$, aildrefnwyd eu bod yn cyfrannu i'r oedfa gymun ar Fawrth 11$^{eg}$. Rhagor o luniau ar dudalen 2.***

**Gair gan Delwyn**

# Amser i bob peth dan y Nefoedd



**"**Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a`r sêr, a roddaist yn eu lle, beth yw meidrolyn i ti ei gofio, a`r teulu dynol, i ti ofalu amdano? Eto gwnaethost ef ychydig islaw duw a`i goroni a gogoniant ac anrhydedd."

Geiriau`r Salmydd yw`r uchod, Dafydd Frenin mae`n debyg, wrth iddo edrych i fyny fry i weld rhyfeddod sêr y greadigaeth uwch ei ben. Pe bai Dafydd yn fyw heddiw byddai`n gallu gweld tu hwnt i`r sêr at y Super Nova`s a`r Tyllau Duon ym mhen draw`r cosmos, ac wrth wneud hynny edrych yn ôl trwy amser. Dyna`n gwmws yr hyn roedd yr anhygoel Stephen Hawking yn ei wneud. Fel rydych siŵr o fod yn gwybod bu farw`r athro Hawking yn ystod mis Mawrth; mis dathlu marwolaeth ein nawddsant ni Dewi. Nawr man a man i mi gyfaddef, a bydd e`n ddim syndod i chi, sai`n lot o wyddonydd! (Os glywsoch chi sŵn fan 'na nawr, Trysorydd y capel sydd newydd gwympo oddi ar ei gadair!) ond roeddwn i wrth fy modd gyda Seryddiaeth, yn aros lan yn hwyr y nos i weld Patrick Moore a`i "Sky at Night", a thrwy fy nhelesgop fach syllu ar y lloer a`r sêr. Dwi`n siŵr taw dyna sut ddechreuodd Stephen Hawking hefyd, ond, ac mae`n 'ond' anferth, roedd **e`n** gweld yn bellach o lawer, hyd yn oed heb delesgop. 'The union of the general theory of relativity and quantum mechanics' oedd ei arbenigedd, gyda sylw arbennig i Dyllau Du, a sut roedden nhw`n gysylltiedig a`r creu. Fe gyplysodd fawredd y greadigaeth a maint anferth y Tyllau Du gyda`r atomau lleiaf posib, a chael cysylltiad pwysig rhwng y ddau. ('Na fe, chi`n gweld, roedd Dewi`n iawn, mae`r pethau bychain yn bwysig!) Os ych awydd gwybod mwy, yna bydd rhaid i chi ddarllen ei lyfr `A Brief History of Time`, llyfr a werthodd dros 10 miliwn o gopïau, ond a ddisgrifiwyd gan Hawking fel "The most popular book NEVER read!" Oedd, roedd ganddo synnwyr digrifwch yn ogystal! - a hynny er iddo ddioddef o glefyd motor neuron ers hanner can mlynedd. Rhyfeddwn at ei allu a`i wybodaeth a`i weledigaeth wyddonol, ond onid mwy rhyfeddol yw ei agwedd at fywyd. Dyma ddau o`i ddyfyniadau enwocaf – "Canolbwyntiwch ar y pethau chi`n gallu gwneud yn dda er gwaetha`ch anabledd a pheidiwch a bod yn anabl yn eich ysbryd", a "Cofiwch edrych i fyny at y sêr ac nid i lawr at eich traed." `Sdim angen dweud dim mwy, daeth hi`n amser i dewi.

***Delwyn Sion***

# Suliau – hyd Fedi 2018

**MAI**

6 Delwyn Sion
13 Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
20 Emlyn Davies
27 Y Parchg. Gethin Rhys

**MEHEFIN**

3 Delwyn Sion
10 Y Parchg. Robert Owen Griffiths
17 Huw a June Lloyd
24 Geraint Rees

**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd:**

**Rhodri-Gwynn Jones**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost:*** rhodrigj@btinternet.com

**GORFFENNAF**

1 Delwyn Sion
8 Sul y Cyfundeb - Oedfa yn Efail Isaf
15 Y Parchg. Ganon Aled Edwards
22 Y Parchg. Robin Samuel
29 Bethlehem - Efail Isaf yn ymuno

**AWST**

5 Efail Isaf
12 Bethlehem
19 Efail Isaf
26 Bethlehem

**MEDI**

2 Karen Owen
9 Delwyn Sion - Cymun
16 Y Parchg. Allan Pickard
23 Cwrdd Diolchgarwch
30 Y Parchg. Hywel Wyn Richards

# Rhagor o luniau'r Cyflwyniad Gŵyl Ddewi





Dyma nhw wrth eu gwaith, wythnos wedi'r eira orfodi'r gohiriad! Talfyriad gafwyd o'r cyflwyniad gwreiddiol, gan fod oedfa lawn yn eu Dilyn. Gyda diolch i holl athrawon yr Ysgol Sul am eu help.





# Y Cwrdd Merched

**O Dachwedd i'r Gwanwyn** **Eirlys Davies, Radur**


Pnawn yn Sain Ffagan

Yn ein cyfarfod mis Tachwedd cawsom gyfle i ddod i adnabod dwy o'n haelodau yn well. Sef Mary Slade a Sianed King. Dwy wedi ei geni a'u magu yn Ne Cymru, ond mewn dwy ardal eitha gwahanol. Mary wedi ei magu ar fferm yng ngorllewin Cymru, ardal Rhoshill, Crymych. Bywyd y fferm, yr ysgol a'r Capel oedd canolbwyntiau bywyd Mary ar teulu yr adeg honno. Dangosodd i ni y clocsiau bach fyddai'n wisgo i gerdded i'r ysgol. Yn ifanc iawn roedd gan Mary ddawn gerddorol arbennig ac yn ei harddegau cafodd gynnig Ysgoloriaeth i astudio mewn Coleg Cerdd yn Llundain. Ond gwrthod yr Ysgoloriaeth fu raid ac arhosodd nes adre i astudio yng Nghaerdydd. A Chymru gafodd fanteisio ar dalentau Mary ar hyd y blynyddoedd, a ninnau ym Methlehem yn manteisio o'i chwmni yn yr Oedfaon, ac yn y Cwrdd Merched.

Yn ardal Castell Nedd y ganwyd a magwyd Sianed King. Roedd Capel Calfaria Rhigos yn ganolbwynt i fywyd y teulu. Cafodd Sianed ei haddysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Ystalyfera. Y byd gwyddonol aeth a bryd Sianed a chymhwysodd i fod yn Ddeintydd. Cafodd yrfa lwyddiannus a dringo yn uchel yn ei phroffesiwn. Pleser i'r teulu yw gweld y mab Rhydian wedi cymhwyso i fod yn Ddeintydd ym Mhrifysgol Lerpwl, ac wedi derbyn swydd yn y ddinas honno, tra mae Angharad ei merch yn feddyg yng ngogledd Lloegr. Cofiwn yn annwyl iawn am ffyddlondeb Rhydian ac Angharad i'r Ysgol Sul a'r Oedfaon ym Methlehem. Difyr iawn oedd cael dod i adnabod dwy o'n haelodau dawnus yn well.

Ar ddechrau mis Rhagfyr Avril Pickard oedd yn Llywyddu pan ddaeth Marian Evans atom i wneud a dangos danteithion addas ar gyfer gwledda'r Nadolig. Cawsom nifer o syniadau gwreiddiol a defnyddiol, a phleser oedd cael blasu'r wledd ar ddiwedd y cyfarfod. Yn ystod y pnawn cawsom gyfle i weld campwaith arbennig o grefftus Marian, sef Cwilt y Steddfod. Roedd pawb wedi rhyfeddu at ei dawn anhygoel yn creu Cwilt mor gywrain. Gobaith Marian yw ei werthu er elw i Eisteddfod Caerdydd.


Cwilt Marian

Yng nghyfarfod cyntaf 2018 cawsom gyflwyniad meistrolgar gan Shan Osborne ar y llyfrau sydd wedi tynnu ei sylw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diddorol ac addysgiadol oedd gwrando ar feistres yn trin llenyddiaeth. Cyflwynodd i ni awduron o Iwerddon ac America. Cawsom sylwadau gan rai o'r aelodau am waith rhai o lenorion cyfoes Cymru ac ymfalchïwn fod un o aelodau Bethlehem wedi cyhoeddi nofel arall yn ddiweddar sef 'Gwales' gan Catrin Dafydd.

Ar bnawn braf y 13eg o Fawrth, Amgueddfa Werin Sain Ffagan oedd cyrchfan aelodau'r Cwrdd Merched. Pleser oedd gweld y datblygiadau newydd modern ym mynedfa'r Amgueddfa. Croesawyd ni yn y cyntedd helaeth gan Dafydd Wiliam, Prif Guradur Adeiladau Hanesyddol yr Amgueddfa. Arweiniodd Dafydd ni i Theatr ddarlithio gyfforddus lle cyflwynodd sgwrs ddifyr i ni am y datblygiad diweddaraf yn adeiladau Sain Ffagan. Trwy gyfrwng lluniau gwych aeth a ni nôl i'r 13eg ganrif. Ail greu un o lysoedd Tywysogion Gwynedd yw'r prosiect y mae Dafydd yn ymwneud ag e. Seiliwyd y gwaith ar weddillion Llys Rhosyr – adfail yn ne-orllewin Môn. I helpu gyda'r ail-greu ymgynghorwyd yn helaeth ag arbenigwyr a'r hanes, pensaernïaeth a llenyddiaeth Cymru ac ymchwiliwyd i gestyll a safleoedd o'r cyfnod sy'n dal i sefyll ledled Gwynedd. Canlyniad hyn fydd creu copi triw o un o Lysoedd y Tywysogion. Neuadd a Siambr fechan y Llys sydd wedi cael eu hastudio fanylaf a dyma'r adeiladau y bydd Sain Ffagan yn adeiladu replica ohonynt. Fel atyniad amgueddfa bydd Llys Llywelyn yn helpu ymwelwyr i ddeall bywyd yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Bydd cyfle i ddisgyblion aros dros nos yn yr adeiladau a phrofi byd y 13eg ganrif. Mis Hydref 2018 fydd y datblygiad hwn yn agor i'r cyhoedd yn Sain Ffagan.

***(PARHAD AR DUDALEN 4)***


**Y Cwrdd Merched (parhad)**

# *Datgelu ystyr "RAPA ITI"*

Yn ein cyfarfod mis Ebrill roedd teitl sgwrs Alwyn Harding Jones 'RAPA ITI - yr hanes **na** ddywedodd fy nhaid' yn ddirgelwch i bob un ohonom. Ond buan y datgelwyd y dirgelwch wrth i Alwyn roi sgwrs wir ddiddorol i ni am anturiaethau ei daid, y llongwr ifanc o Gaernarfon. Thomas Harding Jones oedd y bachgen 18oed hwyliodd o borthladd Porthmadog yn Ebrill 1918 ar y Llong Barc Inverness (isod) yn cario cargo o lechi mae'n debyg i Durban, De Affrica.



Roedd y llong yng ngofal Capten Hughes o Gaernarfon. Wedi gadael Durban, yn cario cargo o lô erbyn hyn, digwyddodd anffawd, fe or-boethodd y glô nes achosi tân ar y llong. Llwyddodd y morwyr i ddianc yn y 2 gwch achub oedd ganddynt a rhwyfo am 650 milltir i ddiogelwch. Buont yn rhwyfo am ddyddiau lawer ar y Môr Tawel nes cyrraedd diogelwch ynys fechan 'RAPA ITI' - ynys o dan awdurdod Ffrainc, gyda nifer o'r brodorion yn Gristnogion gyda Beibl a Llyfr Emynau yn iaith yr Ynys. Cafodd y llongwyr eu hymgeleddu ganddynt am rai wythnosau cyn i long arall eu cludo i Tahiti ac oddi yno mewn tipyn i Auckland ac oddi yno wedyn dal llong yn ôl i Brydain. Cyrhaeddodd Thomas Harding Jones a'r Capten Hughes yn ôl yn ddiogel i Gaernarfon ac o 'Lyfr Log' Capten Hughes y cafwyd y dystiolaeth am anturiaethau y llongwr 18 oed o Gaernarfon. Tawedog fu Thomas Harding Jones am ei deithiau, ond diolchwn ei fod wedi trosglwyddo'n fanwl yr holl gofnodion o 'Lyfr Log' Capten Hughes i lyfr nodiadau personol, ac felly bu i Alwyn gael gafael ar y stori ddiddorol yma o hanes ei daid. Diolchwn iddo am ei throsglwyddo mor frwdfrydig i ni. Mae'n haeddu llawer mwy o ofod a sylw nag a geir yma a gobeithiwn y bydd Alwyn yn gallu crynhoi'r holl fanylion mewn print rhyw ddydd. (Isod) Llun o griw morwyr yr 'Inverness' a Thomas Harding Jones y 3ydd o'r dde yn y rhes flaen.



SAFE AFTER AN ADVENTUROUS VOYAGE OF 650 MILES IN OPEN BOATS: CREW OF THE BARQUE INVERNESS, WHICH WAS BURNED AT SEA, PHOTOGRAPHED ON THEIR ARRIVAL IN AUCKLAND LAST WEEK.



Aled Pickard a Dyborn Chibonga, Prif Weithredwr Mudiad Manddaliadau reis Kilombero ym Malawi

# Naw deg cilo o reis = addysg uwchradd am flwyddyn

*Ydych chi wedi cael cyfle eto i brynu sachaid neu ddau o'r reis sydd ar werth yn Festri – a thrwy hynny ymuno ag ymgyrch Masnach Deg i dalu am addysg plant yn Malawi?*
*Sbardunwyd y cyfan yn ystod ymweliad Aled Pickard, ar ran Masnach Deg, â'r Cwrdd Merched ym Methlehem ynghanol mis Chwefror. Bu Aled yn sôn am ymgyrch arbennig, sialens yn wir, i gefnogi ffermwyr ym Malawi i sicrhau addysg uwchradd i'w plant.*
*Hon yw un o wledydd dwysaf ei phoblogaeth, ond lleiaf datblygedig y byd - gwlad lle nad oes ond 1 o bob 3 o'r plant yn derbyn addysg uwchradd.*
*Ar ôl deall y byddai gwerthu 90 cilogram o reis yn galluogi un teulu i anfon plentyn i dderbyn addysg uwchradd am flwyddyn gyfan, cynigiodd Cath Edwards ein bod fel eglwys yn derbyn yr her ac yn gwerthu dogn ar eu rhan.*
*Prynwyd 90 cilo'n ddioed a gwerthwyd 40 cilo ar y Sul cyntaf iddo fynd ar werth. Ymhen dim roedd 20 cilo arall wedi mynd. Felly mae 'na 30kg ar ôl i unrhyw un sydd eisiau rhagor! Bargen am £3 y cilo, â dewis o reis gwyn neu frown! (Gyda llaw - mae un dogn o reis plaen wedi'i ferwi yn y 'tecawe' agosaf yn £2.50!)*
*Ceir mwy o fanylion am yr ymgyrch fan hyn:-* [https://www.jts.co.uk/90kg-rice-challenge](https://www.jts.co.uk/90kg-rice-challenge)



Dau lun o'r gynulleidfa yn yr oedfa ar fore'r Nadolig – dau lun wedi eu tynnu o'r pulpud!
(Diolch i Rhodri!)

**Cofiwch am ein gwefan:**
**[www.bethlehem.cymru](http://www.bethlehem.cymru)**

# Newyddion

Anfonwn ein cofion at y rhai canlynol sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar:

- **Rhian Harding** – bu Rhian dan driniaeth ddiweddar a hynny ar ôl croesawu mab bach newydd i'r teulu, Tomos Ellis, a brawd bach i Alaw. Da deall, erbyn hyn fod y driniaeth wedi llwyddo a bod Rhian, Gwion a'r teulu wedi cael newyddion da iawn.
- **Allan Pickard**, **Byron Edwards, Anthony Evans, Wynford Ellis Owen, Eirlys Davies (Radur) a Huw Llywelyn Davies** – oll yn troi ar wella ar ôl triniaethau a phyliau o salwch yn ddiweddar.
- **Vi Jones**, fu yn yr ysbyty am gyfnod wedi'r Nadolig.
- **Elen Lewis,** ar ôl cwympo ac anafu ei choes.
- **Y Dr Glyn O. Phillips,** wedi dychwelyd i'n plith ar ôl iddo yntau dreulio cyfnod yn yr ysbyty.
- **Dr Huw Edwards** – hefyd wedi cael triniaeth ac yn ôl yn ein plith.

## Croeso mawr i'r babis newydd sydd wedi cyrraedd yr ardal:

***Joy ac Eifion*** *wedi cael wyres newydd,* ***Besi Ann****, merch fach* ***Ifan a Rosanna****.*

***Esyllt a Richard*** *wedi cael merch fach* ***Anna****, chwaer i* ***Tomos*** *– wyres i Eirlys Davies Radur.*

*Fel cyfeiriwyd eisoes ar y ddalen hon,* ***Gwion a Rhian*** *wedi cael mab bach****, Tomos Elis –*** *a brawd i Alaw.*

*A'r wythnos hon – daeth y newydd am eni* ***efeilliaid i Geraint a Manon****, Treganna – dwy wyres newydd i Rhian Huws, Ffwrnes Blwm. Croeso i Ffion Eiddwen a Nia Mererid.*

**Dymuniadau i ddwy o'n haelodau sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar:**

**Marian Jones**, wedi symud o'r Creigiau i fyw yn Radur.

**Delyth Evans** wedi gadael Gwenfô a setlo yn Y Barri. Hi sydd bellach yng ngofal trefnu'r pregethwyr ar y Suliau – gan olynu Eirlys Davies, Radur (a diolch iddi hithau am ei holl waith dros y blynyddoedd diwethaf).


### *Atgofion o'r eira!*

Oherwydd yr eira, fe gollwyd dwy oedfa, gan gynnwys yr un yng Nghartref Nyrsio Danesbrook House. Daw cyfle eto!

## Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r canlynol sydd wedi colli anwyliaid:

- **Peter Wynn Thomas** – Rhiwbeina, wedi colli ei dad, Haydn Thomas, yn Y Fenni.
- **Nest Huws** – Ffynnon Taf, wedi colli ei brawd, John Griffiths yn Mhontrhydyfen.
- **Carys Williams** – Yr Eglwys Newydd, wedi colli ei mam, Mrs Afanwy Beynon Thomas.
- **Huw Llywelyn Davies -** colli ei gefnder, Gareth Howell, yn Washington.

## Croeso mawr i Enlli Awen



Bore Sul Ebrill 15fed oedd achlysur bedyddio Enlli Awen Edwards, merch fach Malachy a Celyn Edwards. Ac yn dystion i'r cyfan roedd yna gynrychiolaeth niferus o ymwelwyr wedi galw - yn deulu a chyfeillion i rieni Enlli.



# A rhag i ni anghofio am gyfnod y Nadolig a'r Plygain....






*__Uchod a dde:__*
Rydyn ni wedi gweld yr olygfa o'r pulpud ar waelod tudalen 5. Dyma'r gynulleidfa'n gadael ar fore'r Nadolig – cyfle i bawb gyfarch ei gilydd cyn troi am adre a'r cinio!
*__Isod:__*
Rhai o'r Partïon fu'n canu'n y gwasanaeth Plygain eleni.









# O'r Nadolig i'r Steddfod – i gyd mewn bore!

Dylem oll, erbyn hyn, fod yn cofio fod yr Eisteddfod yn nesáu! Dylanwadodd hynny ar ddramastori'r geni ym Methlehem, (Gwaelod-y-garth, nid Jwda) diolch i ddyfeisgarwch Heulwen a'r cast i gyd. Fel arfer, y cast iau oedd y gwir sêr – felly nhw sy'n cael y llun mwyaf!















*Adolygu ein polisïau a'n gweithgareddau*

# Diogelu Grwpiau Bregus

Mae "Panel Diogelwch Cydenwadol" Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ers rhai blynyddoedd, wedi cyhoeddi'r ddogfen "**Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus**", **sef** *Canllaw ymarferol i bolisi ac ymarfer da yr eglwysi wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac oedolion bregus.*

Yn ôl y ddogfen:

"Rydym wedi dod yn llawer mwy cyfarwydd â'r term "amddiffyn plant" yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac fe dderbynnir yn gyffredinol bod angen polisi amddiffyn plant er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod sut i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a beth i'w wneud os oes gennym bryderon. Heddiw, mae'r term "diogelu" yn cael ei ddefnyddio ac mae'n llawer mwy cynhwysfawr na materion amddiffyn plant yn unig. Mae llawer o'r egwyddorion yr ydym wedi'u dysgu drwy ein gweithdrefnau amddiffyn plant bellach yn cael eu rhoi ar waith i amddiffyn oedolion bregus ac mae ein polisïau a'n harferion wedi ehangu i gynnwys hyn. Mae diogelu yn derm sy'n disgrifio'r swyddogaeth o amddiffyn oedolion a phlant rhag cael eu cam-drin neu'u hesgeuluso ac mae hefyd yn cynnwys mesurau i rwystro pobl fregus rhag cael eu niweidio yn y lle cyntaf.

Rhan hanfodol

Mae'r llyfryn diogelu newydd hwn yn ymateb i'r datblygiadau hyn ynghyd â newidiadau i ddeddfwriaeth sydd wedi ailddiffinio gweithgaredd a reoleiddir. Mae diogelu bellach yn rhan hanfodol o arferion a threfn lywodraethu pob sefydliad ac, yn gyffredinol, mae'n ofynnol i roi polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith er mwyn sicrhau statws elusennol a gwneud ceisiadau am arian a grantiau. Fel eglwysi sy'n ceisio adlewyrchu cymeriad a gorchmynion Iesu, rydym yn dymuno gwneud hyn hyd eithaf ein gallu a gweithredu mewn modd ddilychwin yn ein cymunedau.

Mae diogelu yn cynnwys yr elfennau canlynol, ac fe ymdrinnir â phob un ohonynt yn y llawlyfr hwn.

- Recriwtio gweithwyr a gwirfoddolwyr yn fwy diogel
- Arferion gwaith da
- Adnabod arwyddion o gam-drin pobl fregus a sut i ymateb i bryderon
- Iechyd a diogelwch

Arweiniad clir

Y nod yw cynnig arweiniad clir ac ymarferol i'r rheini sy'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau gyda grwpiau bregus yn lleol.

Mae'r canllawiau a'r cyngor yn y ddogfen hon yn sail i bolisi mabwysiedig Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar gyfer gweithio gyda grwpiau bregus.

Ar ôl derbyn y llawlyfr hwn, rydym yn argymell eich bod yn ymgyfarwyddo â'r cynnwys ac yn gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'ch prosesau a systemau lleol. Dylai'r llawlyfr gael ei ystyried wedyn fel cyfeirlyfr."

*Mae copi o'r ddogfen gyfredol ar ein gwefan* www.bethlehem.cymru

Byddwn, yn unol a chynnwys y ddogfen, yn adolygu ein polisïau a'n gweithgareddau yn ystod y flwyddyn gyfredol, ac yn flynyddol o hyn ymlaen.

# Diogelu Data

**Ar y 25ain o Fai 2018, bydd cyfraith newydd (yr "*European General Data Protection Regulation (GDPR)"*) yn dod yn weithredol fydd yn rheoli'r defnydd a wneir o ddata (neu wybodaeth) o fewn eglwysi Cristnogol a mudiadau eraill.**

**Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi darparu canllawiau "ymarfer da" ar gyfer yr eglwysi Annibynnol, ac yn ein hannog i'w mabwysiadu.**

**Yr egwyddor sylfaenol o fewn y gyfraith yw nad oes hawl gan sefydliadau, sy'n cynnwys eglwysi, i rannu gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n perthyn iddynt. Mae'r wybodaeth i'w chadw a'i diogelu ymhob ffordd bosibl ac i'w defnyddio yn unig i ddibenion gweinyddu'r elusen (yr eglwys) yn effeithiol.**

**Yn fras golyga'r gyfraith newydd:-**

- *Na chaniateir cyhoeddi enwau, cyfeiriadau na chyfraniadau ariannol yr aelodau mewn unrhyw Adroddiad Ariannol [dylid nodi nad ydym ym Methlehem wedi bod yn gwneud hyn.]*
- *I ddibenion bugeilio'r gynulleidfa, bydd yn dderbyniol i'r gweinidog, arweinydd, y diaconiaid ac aelodau unrhyw Bwyllgor Bugeiliol fydd wedi eu gwirio, dderbyn rhestr o enwau, cyfeiriadau a rhifau teleffon yr aelodau, ond ni ddylent, ar unrhyw gyfrif, ei rhannu â neb arall.*
- *Os bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu trwy e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol, yna bydd yn rhaid i bob aelod roi eu cyfeiriad eu hunain i'r sawl sy'n rhannu'r wybodaeth. Dylai pob cylchlythyr e-bost gael ei anfon trwy gopïau cudd (BCC) yn hytrach na chopïau gweladwy (fel gyda CC). Ni ddylid cynnwys cyfeiriadau na rhifau teleffon unigolion neu deuluoedd mewn deunydd o'r fath heb eu caniatâd.*
- *Os digwydd i swyddogion yr eglwys dderbyn ymholiad am enw, cyfeiriad, rhif ffon neu gyfeiriad e-bost unrhyw aelod o'r eglwys, bydd yn rhaid gwrthod y cais. [Er y gall gwrthrych yr ymholiad ganiatáu i'r swyddogion roi'r wybodaeth.]*
- *Mae unrhyw un sy'n gwneud gwaith bugeiliol ar ran yr eglwys i nodi bod y wybodaeth a feddant am aelodau'r eglwys, neu eraill, yn gwbl gyfrinachol.*

# Dau aelod yn y newyddion!





*(chwith uchod)* Eirlys Davies, (Danescourt), fu'n siarad gyda Kate Crocket ar Radio Cymru fore Calan Mai am ei harfer o gerdded deirgwaith yr wythnos gan gynnwys mynd i Ben y Garth. Roedd y sgwrs yn cyd-fynd ag ymgyrch mis Mai i'n cael ni gyd i gerdded mwy. *(dde uchod)* Rhys Powys, (Llandaf) gyda'r gadair enillodd o mewn eisteddfod yng Nghaerdydd yn ddiweddar (Ymarfer efallai ar gyfer mis Awst, Rhys?)

***[A dichon fod rhagor ohonoch chi wedi cyflawni sawl camp yn ddiweddar – neu'ch bod yn gwybod am gamp rhywun arall o'n plith. Rhowch wybod i ni, plîs! A thynnwch lun – diolch i sawl ffotograffydd am luniau'r rhifyn hwn.]***

***<<<< >>>>***

# *Y DRWS AGORED*

*(isod)* Rhai o selogion cyfarfodydd Y Drws Agored – sydd wedi cael y fraint o glywed nifer o siaradwyr yn trafod y gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol sy'n gefn i'n cymdeithas a'n cymdogaeth.



*(uchod – rhwng Delwyn ac Alun)* Alun Michael, Comisiynydd Heddlu De Cymru, fu'n trafod cyfrifoldebau'r heddlu.



*(ar y dde gydag Allan)* Eurwen Richards, fu'n trafod gwaith Bugeiliaid y Stryd.

*(isod - rhwng Alun a Joy)* Heddyr Gregory, Shelter Cymru, fu'n trafod digartrefedd.

